Cofio ac anghofio'r Gorffennol: Trawsnewidiad sonig o bregethau, gan ddefnyddio technoleg ddigidol ac analog a diffygion dementia

Yr Athro John Harvey: Yr Athro, Yr Ysgol Gelf, Prifysgol Aberystwyth

Cyfraniad at *Archwiliwch Eich Archif: Archif Cof* y Comisiwn Brenhinol oedd y prosiect hwn. Un o amcanion y digwyddiad oedd archwilio cof mewn perthynas â dementia. Felly aeth fy nghelfwaith-sain, , *I. Nothing. Lack*., a drafodir yn y papur hwn, i'r afael â themâu cofio ac anghofio yn bennaf.

Daeth y deunydd gwreiddiol ar gyfer y prosiect o recordiadau tâp-casét o bedair pregeth ar Salm 23 a draddodwyd gan y Parch. J. Douglas ym mis Awst 1979, ym Methel, Eglwys y Bedyddwyr Cymraeg, Aberystwyth. Mae'r amgodio tâp yn cynrychioli atgof technolegol o bregethu MacMillan.

38 o flynyddoedd yn ddiweddarach, cafodd yr atgof hwnnw ei ddwyn i gof, yn dechnolegol, yn y man lle y cafodd ei ffurfio gyntaf. Cafodd y wybodaeth analog ei throsglwyddo'n ddigidol er mwyn caniatáu amrywiaeth o ymyriadau yn y 'cof' ac ailffurfweddau ohono. Roedd y prosesau a ddefnyddiwyd i drawsnewid y cynnwys wedi'i ddigido yn deillio o'r diffygion sy'n gysylltiedig â dementia.



Bydd y papur yn adrodd sut y cafodd y prosiect ei gyflwyno a'i dderbyn. At hynny, bydd y drafodaeth yn ymdrin â rhinweddau neilltuol gweddillion-sain fel dogfennaeth hanesyddol, ac â'u dadansoddi a'u dehongli drwy arfer celf sain a hanes sonig. Bydd hefyd yn ystyried sut y gall cydweithio rhwng artist-academyddion a sefydliadau cyhoeddus arwain at fewnwelediadau a synergeddau newydd a fyddai'n anghaffaeladwy fel arall – a hynny mewn ffordd a fydd yn hygyrch i'r cyhoedd, yn heriol ac yn berthnasol i bryderon cymdeithasol, ac a fydd yn cyfrannu at ddealltwriaeth o afiechyd meddwl.